Ysgol Bro Gwydir
Heol Watling
Llanrwst
Conwy
LL26 0EY
01492 640342

Cylchlythyr Y Cyfnod Sylfaen - Dan 7

Ebrill 2021 - Tymor yr Haf

Mathemateg a Rhifedd

- Byddwn yn tynnu drwy gyfri yn ôl gan ddefnyddio llinell rif a cownteri.
- Byddwn yn adnabod a trefnu dyddiau'r wythnos a misoedd y flwyddyn a canu'r gân i'n atgoffa.
- Byddwn yn dweud yr amser i'r awr, hanner awr, chwarter wedi a chwarter i ar gloc analog a digidol yn ymarferol, ar bapur a drwy chwarae gemau.
- Byddwn yn adnabod darnau arian gwahanol ac yn cyfri cyfanswm gwahanol o ddarnau cymysg o arian.
- Byddwn yn dysgu sut i wneud symiau lluosi a'u gwneud yn ymarferol.
- Byddwn yn dysgu ein tablau: 2, 10, 5 a 3.
- Byddwn yn mesur anifeiliaid bach ac yn ceisio tynnu llun eu mesuriadau cywir gyda sialc.

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

- Caiff y plant gyfle i greu cynefinoedd anifeiliaid eu hunain yn y goedwig.
- Byddwn yn ymchwilio i mewn ac yn dysgu ffeithiau am gynefinoedd anifeiliaid gwahanol.
- Byddwn yn dysgu gwybodaeth am gadwyn fwyd.
- Byddwn yn labelu a cymharu anifeiliaid gwahanol.

Iaith a Llythrennedd

- Byddwn yn disgrifio anifeiliaid peryglus gan ddefnyddio ansoddeiriau ac yn creu ffeil o ffeithiau am yr anifeiliaid gwahanol.
- Byddwn yn gwrando ar y stori ' Y teigr a ddaeth i dê' ac yn creu gwahoddiad i barti / tê prynhawn.
- Byddwn yn gwrando ar y llyfr 'Dwndwr yn y jyngl' ac yn creu cerdd sy'n odli.
- Yn yr ardal chwarae rôl, bydd y plant yn cael cyfle i chwarae rôl eu bod mewn saffari / yn y ty yn cael tê prynhawn. .
- Byddwn yn chwarae gemau llafar drwy ddisgrifio anifeiliaid a dyfalu 'Pa anifail ydw i?'

Gwybodaeth i Rieni Blwyddyn 1 a 2 - Anifeiliaid Peryglus





PRYDLONDEB

Mae angen i'ch plentyn gyrraedd y dosbarth erbyn **9.00 y bore.**

Yn anffodus os yw eich plentyn yn cyrraedd ar ôl 9.10 bydd ef neu hi yn cael ei farcio fel hwyr ar y gofrestr.

Ni ddylai eich plentyn gyrraedd yr ysgol cyn 8.50yb oni bai eu bod yn mynychu'r 'Clwb Brecwast'.

Diolch yn fawr.

Iechyd a Lles

- Byddwn yn cael sesiynau amser cylch wythnosol i ymarfer sgiliau gwrando a dysgu a thrafod teimladau.
- Byddwn yn trafod y set sgwrsio ar y buarth.
- Yn y gwersi Addysg Gorfforol, bydd y plant yn gwneud ioga / athletau a dilyn cyfarwyddiadau.
- Byddwn yn dysgu tu fewn a thu allan ymhob tywydd.
- Byddwn yn defnyddio 'Ioga Cosmic Kids' a 'Go Noodle' i gadw'n heini.
- Byddwn yn cymryd rhan mewn rhedeg / cerdded 'milltir y dydd'.
- Byddwn yn ymlacio gan wrando ar gerddoriaeth tawel.
- Byddwn yn cymeryd rhan mewn lliwio meddylfryd 5 munud tawel ar gyfer lles.
- Byddwn yn cymryd rhan mewn 'Deffrwch, dawnsiwch' ar y buarth.
- Byddwn yn gwrando ar y storiau am ein cymeriadau dygu: Dylan dal ati, Cadi cydweithio, Caio Canolbwyntio a Rhodri rhoi tro.

Dyniaethau

- Byddwn yn cymharu cartrefi oer a poeth yr anifeiliaid peryglus.
- Byddwn yn adnabod cartrefi'r anifeiliaid peryglus o gwmpas y byd ac yn eu enwi.
- Byddwn yn gwrando a'r y storiau canlynol o'r Beibl: Daniel a'r ffae llewod, Arch Noa, Jona a'r morfil.

Celfyddydau Mynegiannol

- Byddwn yn cyfansoddi cân am anifeiliaid gan ddefnyddio offerynau gwahanol.
- Byddwn yn cyfansoddi dawns yr anifeiliaid.
- Byddwn yn gwrando a gwerthuso carnifal yr anifeiliaid.
- Creu llun o anifail cuddliw.
- Creu llun gan ddefnyddio cysgodion anifeiliaid.
- Byddwn yn peintio llun o anifail peryglus.

Cofiwch...

ADDYSG GORFFOROL

Mae angen i'r plant gael crys t gwyn, siorts du a phympiau mewn bag. Bydddent yn gadael y dillad yn yr ysgol am y hanner tymor.

Grug	Dydd Mercher
Meillion	Dydd Iau
Saffrwn	Dydd Iau

DARLLEN

Mae angen i'r plant ddod a llyfrau darllen i'r ysgol **bob dydd.** Byddwn yn darllen gyda'r plant gymaint ac y gallwn yn ystod yr wythnos ond yn anffodus oherwydd amgylchiadau Covid-19, byddwn yn newid llyfrau unwaith yr wythnos yn unig.

Diolch.

TYWYDD

Mae eich plentyn angen côt addas ar gyfer tywydd gwlyb.

Mae croeso i'r plant ddod a diod o ddŵr gydag enw ar y botel.